

# Partneriaeth ar gyfer Twf

**Wrth iddo fynd ati i adolygu'r strategaeth, mae Croeso Cymru yn ymgymryd â dadansoddiad cynhwysfawr ar berfformiad y diwydiant o ran cyflawni'r strategaeth.**


**Mae'r sleidiau hyn yn rhoi trosolwg byr o'r canfyddiadau allweddol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais a chyhoeddir dogfen manwl lawn yn ystod y flwyddyn.**

## **Gwybodaeth bellach ac adborth**

[tourismresearch@llyw.cymru](mailto:tourismresearch@llyw.cymru)


Paratowyd gan David Stephens,  
Uwch-reolwr Ymchwil Croeso Cymru.  
Mawrth 2019

Mae Cymru yn denu tua 10.1 miliwn o ymwelwyr dros nos, gyda 90% yn dod o'r DU a 10% o dramor.



### Tueddiadau mewn ymweliadau dros nos a gwariant ymwelwyr yng Nghymru


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/GBTS



Ers 2012, mae twf wedi bod mewn swyddi yn y sector twristiaeth yng Nghymru, gyda 127,300 o bobl yn gweithio yn y sector yn 2017, sy'n cynrychioli 9.4% o swyddi Cymru.

## Cyflogaeth yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru


Fynhonnell: APS/Ystadegau Sectorau Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru



Mae'r twf mewn gwerth ychwanegol gros sydd i'w briodoli i dwristiaeth wedi bod yn fwy na'r twf cyfartalog ar gyfer pob un o'r diwydiannau yng Nghymru. Mae'r sector wedi cyfrannu dros £3 biliwn mewn gwerth uniongyrchol gros ychwanegol yn 2016, tua 6% o'r holl economi yng Nghymru.

## Amcangyfrif o Gyfraniad Gwerth Ychwanegol Gros y Sectorau Twristiaeth yng Nghymru

*Ystadegau Sectorau Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru*




Mae cymunedau a phobl ar draws Cymru yn elwa ar economi'r diwydiant ymwelwyr. Twristiaeth yw prif ffynhonnell gwaith i bobl yn siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Cheredigion.

## Cyfran o Gyflogaeth yn y Sector Twristiaeth ar draws Cymru

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2017/Ystadegau Sectorau Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru


% yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth ym mhob ardal



Mae heriau yn codi wrth geisio gwella cynhyrchiant a chael mwy o swyddi parhaol yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae cyfran uwch o swyddi yn y diwydiant twristiaeth yn rhai rhan amser sy'n cyfrif am bron hanner o'r swyddi yn y diwydiant yn 2017. Mae enillion wythnosol cyfartalog lower llai na'r cyfartaledd ar draws diwydiannau yng Nghymru.

## Cyfran cyflogaeth llawn amser a rhan amser ym mhrif sectorau Cymru

Ffynhonnell - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ONS



# Mae gan ymwelwyr o Brydain Fawr ddiddordeb mewn cymryd amrywiaeth o wyliau gwahanol yn y DU. Llefydd i fwynhau golygfeydd arfordirol a chefn gwlad yw'r rhai mwyaf poblogaidd.

SIOPA



FFRINDIAU



AR LAN Y MÔR



BWYD A DIOD



CEFN GWLAD



GWYLIAU



YMLACIO



TEULU



NATUR



ARFORDIR



HANESYDD OL



CELFYDDYD AU




ANTUR



CHWAREON



**Canran o ymwelwyr o'r DU sydd â diddordeb mewn mathau gwahanol o wyliau**  
*Ffynhonnell Traciwr Marchnata a Brandio Croeso Cymru Ebrill 2015 – Rhagfyr 2018; % Llawer o ddiddordeb neu ddiddordeb mawr*




■ Canran sydd â diddordeb mewn math o wyliau – DU i gyd.

Mae ymweliadau i Gymru ar eu hanterth dros fisoedd yr haf, gyda 37% o ymweliadau â Chymru yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst o gymharu â 31% o ymweliadau â Phrydain Fawr

## Mis o Ymweliadau Dros Nos i Gymru gan Breswylwyr Prydain Fawr

*Ffynonell GBTS*



■ Cyfartaledd 2015 – 17




**Mae gwariant cyfartalog gan dwristiaid i Gymru yn parhau'n llai na'r gwariant ar draws y DU.**

<b>Ymweliadau dros nos o'r DU</b>	<b>Gwariant fesul taith 2017</b>	<b>Gwariant fesul nos 2017</b>
Cymru	£180	£53
Prydain Fawr	£196	£64
<b>Ymweliadau Rhyngwladol</b>	<b>Gwariant fesul taith 2017</b>	<b>Gwariant fesul nos 2017</b>
Cymru	£342	£54
Prydain Fawr	£625	£86
<b>Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid</b>	<b>Gwariant fesul taith 2017</b>	<b>Gwariant fesul nos 2017</b>
Cymru	£43	Amh
Prydain Fawr	£35	Amh

Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y bobl o Brydain Fawr sy'n mynd ar wyliau gyda'r nifer uchaf erioed yn mynd ar wyliau yn y DU neu dramor yn 2017. Er hynny, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos llai o dwf yn y gwyliau a gymerwyd yn y DU a thramor yn 2018.


## Nifer Y gwyliaid a gymerwyd gan breswylwyr y du ym Mhrydain Fawr a Thramor

*Ffynonell GBTS*




# Gwelwyd tuedd gyffredinol o Gymru'n cynyddu ei chyfran o ymweliadau dros nos a gwariant gan ymwelwyr o Brydain Fawr yn y blynyddoedd diwethaf.

**Cyfran Cymru (%) o Ymweliadau Dros Nos ym Mhrydain Fawr gan Drigolion Prydain Fawr.**  
*Cyfartaledd treigl 3 blynedd*



Mae nifer y gwyliau, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau ac ymweliadau busnes i Gymru wedi gostwng yn 2016 ac 17, ond mae ffigurau dros dro ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Medi yn dangos cynnydd mewn twf yn 2018.


## Ymweliadau Dros Nos gan Breswylwyr Prydain Fawr i Gymru gan ddangos Pwrpas yr Ymweliad Ffynhonnell GBTS



**Mae tuedd i fwy o wyliau byr gael eu cymryd yng Nghymru gan ymwelwyr o Brydain Fawr, sy'n cyfrif am 60% o'r gwyliau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru.**

**Nifer yr Ymweliadau Dros Nos â Chymru gan Breswylwyr Prydain Fawr (miloedd)**


*Fynhonnell GBTS*



**Roedd tua hanner o'r rhai a oedd wedi archebu llety ymlaen llaw wedi gwneud hynny fis neu lai cyn iddyn nhw gymryd eu gwyliau. Mae archebion llety ar gyfer ymweliadau busnes lawer yn fwy tebygol o gael eu harchebu'n hwyrach. Mae tua 30% o ymweliadau â Chymru yn cael eu harchebu ar-lein drwy gyfryngwr teithio fel Expedia.**


### Pryd cafodd yr ymweliad â Chymru ei archebu

*Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2017 (fersiwn ar-lein)*



### Sut cafodd llety ar gyfer gwyliau ei archebu yng Nghymru a Phrydain Fawr


*GBTS 2017 (arolwg ar-lein)*



Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer yr ymwelwyr o dramor sy'n ymweld â'r DU, gan gyfrannau at lefelau uchel o ymweliadau a gwariant yn 2017. Er hynny, mae'r ffigurau dros dro diweddaraf rhwng mis Ionawr a mis Medi yn dangos bod nifer yr ymweliadau wedi lleihau yn 2018

## Nifer yr ymweliadau a gwariant gan Ymwelwyr o Dramor i'r DU


Arolwg Teithwyr Rhyngwladol



Mae ymweliadau i Gymru gan ymwelwyr o dramor wedi codi unwaith eto i dros 1 filiwn yn 2017. Er hynny, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos cwmp yn 2018, sy'n cyfateb i gostyngiad dros y DU i gyd.

## Nifer yr ymweliadau a gwariant gan ymweliadau Rhyngwladol i Gymru

Arolwg Teithwyr Rhyngwladol





**Mae nifer mwyaf yr ymweliadau â Chymru yn dod o Iwerddon, wedyn Ffrainc, yr Almaen ac Unol Daleithiau America. Mae'r gwariant o'r marchnadoedd hyn i gyd tua £30-35 miliwn y flwyddyn.**

<b>Deg prif farchnad ar gyfer ymweliadau i Gymru 2015-2017</b>					
<i>ffynhonnell Arolwg Teithwyr Rhyngwladol</i>					
	<b>Ymweliadau (miloedd)</b>	<b>Gwariant (miliynau)</b>	<b>Gwariant fesul ymweliad</b>	<b>Cyfradd Twf Blynyddol mewn Ymweliadau % Cymru 2012-17</b>	<b>Cyfradd Twf Blynyddol mewn Ymweliadau % DU 2012-17</b>
Iwerddon	168,000	£33	£196	+1.75%	+2.3%
Ffrainc	92,000	£35	£382	-3.1%	+2%
Yr Almaen	90,000	£29	£322	+3.2%	+2.3%
Unol Daleithiau America	88,000	£36	£409	+1.6%	+4.9%
Yr Iseldiroedd	63,000	£17	£279	+1.3%	+2.9%
Awstralia	61,000	£33	£537	0	+0.3%
Sbaen	51,000	£16	£314	+7.7%	+5.5%
Gwlad Pwyl	38,000	£6	£122	11.8%	+10%
Yr Eidal	39,000	£20	£528	+7.1%	+4.2%
Canada	31,000	£15	£477	+4.4%	+2.2%

Mae ymwelwyr o'r Almaen ac Unol Daleithiau America wedi arwain y twf mewn gwyliau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru. Mae'r twf yn nifer yr ymwelwyr sy'n cymryd gwyliau yng Nghymru o Ffrainc, Iwerddon a'r Iseldiroedd wedi bod yn llai na'r twf ar gyfer y DU gyfan.

### Deg Prif Farchnad ar gyfer Gwyliau i Gymru 2015-2017


Ffynhonnell Arolwg Teithwyr Rhyngwladol

	Ymweliadau	Gwariant (miliynau)	Gwariant fesul ymweliad	Twf blynyddol cyfartalog mewn Ymweliadau â Chymru	Twf blynyddol cyfartalog mewn ymweliadau â'r DU
Ffrainc	36,000	£11	£319	-5.8%	+1%
Unol Daleithiau America	51,000	£19	£374	+4.1%	+8%
Yr Almaen	50,000	£19	£389	+9.6%	+4%
Iwerddon	65,000	£12	£181	+1.6%	+1%
Sbaen	9,000	£3	£389	-1.3%	+6%
Yr Iseldiroedd	30,000	£10	£342	+1.2%	+3%
Canada	15,000	£7	£467	+5.3%	+4%
Yr Eidal	17,000	£6	£336	+11.7%	+3%
Gwlad Belg	14,000	£7	£454	+4.9%	-1%
Awstralia	31,000	£15	£482	-1.2%	-2%

# Mwynhau'r dirwedd a threftadaeth yw'r prif ysgogiadau i ymwelwyr o dramor sy'n ymweld â Chymru.


## Rhesymau dros ymweld â Chymru

Ffynhonnell Arolwg Ymwelwyr Cymru: Sylfaen – Pob ymwelydd o dramor: 2016 Cyfnod 2



# Heblaw am ymwelwyr o Iwerddon, mae cyfran llawer uwch o ymwelwyr o dramor yn ymweld â'r Alban a De-orllwein Lloegr yn hytrach na Chymru ar draws pob un o'r prif farchnadoedd gwyliau.

Canran o ymwelwyr tramor i'r DU sy'n ymweld â Chymru, yr Alban a De-orllwein Lloegr  
*Tarddiad Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

The Welsh Government Strategy for Tourism 2013 – 2020  
**Partnership for Growth**



**Gwybodaeth bellach ac adborth**  
[tourismresearch@llyw.cymru](mailto:tourismresearch@llyw.cymru)

